

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

20 Mehefin 2018

Yn bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd Mrs D Clements, y
Cynghorydd M Evans, y Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y
Cynghorydd M James, y Cynghorydd PJ Morgan, y Dr R Plummer, y
Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, y Cynghorydd A Wilcox a'r
Cynghorydd M Williams.

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.30am – 12:00pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr A Archer, y
Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd P Harries, y Cynghorydd P Kidney a'r
Cynghorydd S Yelland.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2018 i'w cadarnhau
a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar
16 Mai.

4. Materion yn codi o gofnodion 16 Mai 2018

(a) Caffi Castell Caeriw (Cofnod 5(a))

Dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn pryderon a godwyd gan y Cynghorydd R
Owens mewn cyfarfodydd blaenorol ynghylch diffyg toiledau anabl yn y cynllun
diwygiedig ar gyfer y caffi newydd, y penderfynwyd mynd yn ôl i'r cynnig
gwreiddiol. Golygai hyn y byddai'n rhaid i holl gwsmeriaid y caffi ddefnyddio'r
cyfleusterau toiled presennol o fewn cwrtil y Castell.

Croesawodd y Cynghorydd Owens y newid i'r cynllun.

NODWYD.

(b) Amrywio'r Gorchymyn Maes Parcio sydd eisoes yn bodoli erbyn dechrau'r tymor codi tâl am feysydd parcio 2019 (Cofnod 9)

Gan gyfeirio at y Cofnod uchod, dywedodd y Cynghorydd P Baker wrth yr
Aelodau fod y Gorchymyn Maes Parcio i'w ystyried gan Gabinet Cyngor Sir
Penfro ar 02 Gorffennaf 2018. Ychwanegodd, yn rhinwedd ei swydd fel Aelod
Cabinet sy'n gyfrifol am gynllunio a seilwaith, ei fod wedi cael ei wahodd i
gwrdd â chynrychiolwyr Cyngor Cymuned Angle yn hwyrach y diwrnod hwnnw i
glywed eu barn am gyflwyno taliadau ym maes parcio Angle.



Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd A Wilcox, dywedodd y Prif Weithredwr, pe bai'r Gorchymyn Maes Parcio yn cael ei ddiwygio fel y gofynnwyd, y byddai'r Awdurdod yn canolbwyntio ei ymdrechion ar gyflwyno peiriannau talu ac arddangos yng Ngorllewin Angle, Penali, Amroth a Nolton Haven am y tymor.

NODWYD.

(c) Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Cofnod 11)

Hysbysodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau fod y pedwar Ymddiriedolwr annibynnol arall wedi eu penodi dros dro ac roedd yn disgwyl cadarnhad ysgrifenedig eu bod yn derbyn y rôl. Yn y cyfamser, roedd y Rheolwr Cyllid Allanol yn bwrw ymlaen â materion yn ymwneud â'r cais i'r Comisiwn Elusennau.

Dywedodd y Cynghorydd R Owens fod pryderon wedi cael eu codi'n allanol am enw'r Ymddiriedolaeth gan y gallai achosi dryswch gyda chyrff sy'n bodoli eisoes. Gofynnwyd iddo ofyn a ellid llunio teitl gwahanol. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod enw'r Ymddiriedolaeth wedi'i gytuno yng nghyfarfod mis Mai; nid oedd o'r farn y byddai'r Ymddiriedolaeth newydd yn cael ei drysu â chyrff eraill, fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

NODWYD.

(ch) Y wybodaeth ddiweddaraf am waredu eiddo'r Awdurdod yn Stryd Hir yng Nhrefdraeth (Cofnod 13)

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, dywedodd y Prif Weithredwr fod achlysur agor yr eiddo yn nwylo Cyngor Tref Trefdraeth. Fodd bynnag, fel y soniwyd eisoes mewn nifer o gyfarfodydd, byddai'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli yn yr ardal gan Barcmon Haf y Parc Cenedlaethol. Penodwyd Ewan Rees i'r swydd a bwriedir cynnal nifer o ddigwyddiadau dros gyfnod yr haf a fyddai'n rhoi mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

NODWYD.

5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Hysbysodd Mrs G Hayward yr Aelodau mai dim ond Gwasanaeth Dinesig Maer Tyddewi yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi y bu'n bresennol ynddo ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod, oherwydd amgylchiadau personol.

NODWYD.

6. Adroddiadau cyfarfodydd o wahanol Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau a ganlyn o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

- (i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2018;
- (ii) Y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018, a



- (iii) Y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2018.

Gan gyfeirio at Gofnod 7 (Adroddiad Archwilio Mewnol 2017/18) o'r adroddiad am gyfarfod y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd gan yr Archwilwyr Mewnol wedi bod yn ffeithiol anghywir oherwydd dylai eu barn gyffredinol am y tîm Adnoddau Dynol fod wedi bod yn 'sylweddol' ac nid 'digonol' fel y nodwyd yn y cyfarfod. Mewn gwirionedd, roedd yr adroddiad drafft gwreiddiol, a anfonwyd at y Prif Weithredwr am gadarnhad ffeithiol, yn dangos 'sylweddol' ond, am ryw reswm, roedd hyn wedi'i ddiwygio erbyn i'r adroddiad terfynol ddod i law. Byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau maes o law.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Dr R Heath-Davies, sicrhodd y Prif Weithredwr hi fod y mater wedi'i godi gyda'r Archwilwyr Mewnol ac y byddai swyddogion o fewn yr Awdurdod yn monitro'r sefyllfa i sicrhau na fydd y fath beth yn digwydd eto. Mynegodd y Cynghorydd M Williams ei siom am y camgymeriad; roedd o'r farn bod y cwmni wedi perfformio'n dda ers eu penodi ac wedi dod â safbwynt gwahanol i'r broses archwilio.

PENDERFYNWYD:

- (a) nodi adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2018, a
- (b) mabwysiadu adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018 a'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2018.

7. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020 – 2024

Atgoffodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc yr Aelodau fod gofyn i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli pum mlynedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol; roedd y Cynllun presennol yn cwmpasu'r cyfnod 2015 – 2019.

Roedd ei hadroddiad i'r Aelodau y diwrnod hwnnw'n amlinellu'r broses ymgysylltu anffurfiol arfaethedig a fyddai'n cael ei rhoi ar waith wrth baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol ar Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer 2020 – 2024. Roedd yn nodi'r amserlen i'w dilyn, yr asesiadau effaith y dylid eu cynnal, a rhoddodd restr ddangosol o randdeiliaid/partneriaid a fyddai'n ymwneud â'r broses gyfan. Ychwanegodd y gellid datblygu'r rhestr ddangosol ymhellach wrth i'r broses ymgysylltu fynd yn ei blaen. Y gobaith oedd y byddai'r dull hwn o weithredu yn meithrin perthnasau newydd, yn meithrin ymrwymiad i ddibenion y Parc Cenedlaethol ac yn ychwanegu gwerth i'r rhaglenni trwy gylch y Cynllun.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mrs D Clements, dywedodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc y byddai'r dull arfaethedig hwn, gobeithio, yn cynyddu lefel yr ymgysylltiad yn y broses; byddai gwaith paratoi/ymgysylltu anffurfiol o chwe mis cyn y broses ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos. Y bwriad



oedd defnyddio cydweithwyr yn y tîm Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedau ac Ymwelwyr i helpu i ledaenu'r gair ac i annog mwy o gyfranogiad y tro hwn.

Gofynnodd y Dr RM Plummer, o gofio bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynghorwyr statudol ym mhroses y Cynllun Rheoli, a oedd sylwadau wedi cael eu gwneud i Brif Weithredwr newydd Cyfoeth Naturiol Cymru? Atebodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr newydd yn ddiweddar a'u bod wedi siarad ychydig am y mater. Yn anffodus, nid yw canllawiau swyddogol diweddaraf y Cynllun Rheoli fyth wedi dod i law gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ond ar hyn o bryd roeddent yn brysur yn datblygu cynlluniau ardal. Dywedodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc ei bod hi a'i thîm mewn cysylltiad agos â'u cydweithwyr perthnasol yng Nghyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn cael arweiniad anffurfiol ganddynt. Ychwanegodd fod canllawiau presennol y Cynllun Rheoli yn dal yn ddilys mewn sawl achos.

Awgrymodd y Dr R Heath-Davies fod swyddogion yn cysylltu â Menter Iaith Sir Benfro oherwydd y gallai eu swyddogion helpu i ganfod grwpiau i ymgysylltu ag elfen Gymraeg yr Aseiad Effaith a materion eraill. Atebodd Pennaeth Cyfeiriad y Parc nad oedd y rhestr o randdeiliaid yn yr adroddiad yn rhestr gyflawn, ond ei bod yn rhoi rhagflas i'r Aelodau o'r hyn y mae swyddogion yn ei wneud.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dull gweithredu arfaethedig o baratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, fel y'i nodir yn adroddiad Pennaeth Cyfeiriad y Parc.

8. Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer Sir Benfro

Rhoddodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ddyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) ar gyfer eu hardal ac, os oedd rhan o'r ardal honno o fewn Parc Cenedlaethol, dylai'r awdurdod priffyrdd weithio ar y cyd â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol i ddatblygu Cynllun o'r fath.

Cyflwynodd y Swyddog Mynediad a Hawliau Tramwy y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ar gyfer 2018 – 2028 i'r Aelodau, a ddatblygwyd ar y cyd gan swyddogion Cyngor Sir Penfro a'r Awdurdod, ac oedd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori ehangach tan 3 Awst 2018. Yn y Cynllun drafft roedd chwe amcan a fyddai'n arwain proses reoli a datblygiad hirdymor y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Roedd yr amcanion hefyd yn cynrychioli nodau dyheadol ar gyfer y rhwydwaith o Hawliau Tramwy ac roeddent yn dibynnu ar gyllid, nid yn unig o'r cyllidebau presennol ond ar gyllid allanol hefyd. Rhannwyd y chwe amcan ymhellach yn gamau gweithredu y gellid eu monitro a'u hasesu a byddai'r broses hon, yn ei thro, yn bwydo i'r cynllun cyflenwi newydd. Byddai hyn yn digwydd ar ffurf adroddiad blynyddol ac roedd yn newid i'r dull a ddefnyddiwyd yn y Cynllun blaenorol.

Ychwanegodd y Swyddog Mynediad a Hawliau Tramwy fod angen diwygio'r ffigurau y cyfeirir atynt yn Adran 1.2 o'r Cynllun drafft i gynnwys 260km



ychwanegol o lwybrau troed ac y byddai hyn yn cael ei gywiro ar ôl cwblhau'r Cynllun.

Cymeradwyodd yr Aelodau'r Cynllun drafft ar y cyfan, ond tynnodd y Dr R Heath-Davies sylw at y ffaith – o dan Amcan F, a oedd yn anelu at hyrwyddo teithiau cerdded ar y wefan, ac ati – fod angen cydnabod y gallai fod yn anodd lawrlwytho mapiau weithiau, yn enwedig ar ffôn symudol. Cyfeiriodd hefyd at yr angen i sicrhau bod angen cynllun cludiant integredig er mwyn galluogi cerddwyr i gael mynediad at rai llwybrau. Croesawodd y Cynghorydd M Evans y gwaith o hyrwyddo llwybrau aml-ddefnydd gan eu bod yn ffordd o ymgysylltu â'r genhedlaeth iau. Roedd yn gwerthfawrogi nad oedd llwybrau o'r fath yn addas ym mhobman, ond roedd yna nifer o fannau o fewn y Parc Cenedlaethol y gellid eu datblygu. Atebodd y Swyddog Mynediad a Hawliau Tramwy, lle bo hynny'n briodol – a gyda chaniatâd y tîrfeddiannwr a'r cyllid angenrheidiol – y byddai llwybrau o'r fath yn cael eu datblygu.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ar gyfer Sir Benfro 2018 – 2028, yn amodol ar y sylwadau a godwyd gan Aelodau yn y cyfarfod.

9. **Cymeradwyo grantiau yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid, yn unol ag Adran 78 o Ddeddf Safonau Ariannol 2012, fod yn rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo unrhyw grant neu daliad sy'n werth dros £10,000 o dan un cytundeb.

Roedd ei adroddiad yn manylu ar ddau daliad o'r fath, sef swm o £12,500 i Fforwm Arfordir Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgarwch arfordirol, a swm o oddeutu £72,400 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at Bartneriaeth Llwybrau Gwyrdd Sir Benfro.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau, fel y'u nodir yn adroddiad y Rheolwr Cyllid.

10. **Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yn rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a roddwyd iddo dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ôl Safonau 158,164 a 170 o'r Hysbysiad roedd yn rhaid llunio Adroddiad Blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn a chyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer 2017/18 i ystyriaeth yr Aelodau.

Yn gyffredinol, cytunwyd ar yr adroddiad, er i'r Aelodau awgrymu rhai mân newidiadau, gan gynnwys manylu ar nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith yr Aelodau yn ogystal â staff.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys y newidiadau a godwyd yn y cyfarfod, y dylid derbyn yr Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg.

